Department for Environment, Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad ar Gynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig rhywogaethau gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Chwefror 2026

Fersiwn: ymgynghoriad cyhoeddus

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd ynddo i ddechrau.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at FMPconsultations@defra.gov.uk

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 5

FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ..... 6

Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth ..... 6

Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ..... 7

Pam rydym yn cyhoeddi FMPau? ..... 7

Beth yw FMPau? ..... 7

Sut mae FMPau yn gweithio ..... 7

FMPau a Gwladwriaethau arfordirol eraill ..... 8

Y dull o ddatblygu'r FMPau ..... 8

Crynodeb o FMP rhywogaethau gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ..... 9

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ..... 9

Tystiolaeth ..... 10

Nodau polisi ar gyfer rheoli pysgodfeydd gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ..... 11

Rheolaeth arfaethedig ar bysgodfeydd gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ..... 12

Gweithredu ..... 13

Casgliad ..... 14

Asesiad Amgylcheddol Strategol ..... 14

Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut cafodd ei ddatblygu? ..... 14

Crynodeb o Adroddiad Amgylcheddol FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ..... 15

Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ..... 16

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ..... 16

Hyd yr ymgynghoriad ..... 17

Ymatebion ....................................................................................................................17

Ymholiadau....................................................................................................................17

# Cyflwyniad

Mae gan y Deyrnas Unedig rai o’r adnoddau bwyd môr gwyllt gorau yn y byd. Mae ein stociau pysgod yn ased cyhoeddus sy’n cynhyrchu bwyd ac yn creu swyddi, yn ogystal â darparu cyfleoedd hamdden mewn sector sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder i’w cymunedau. Mae’r stociau pysgod hyn hefyd yn rhan allweddol o’n hecosystemau morol.

Mae llawer o’n stociau pysgod dan bwysau amrywiol o sawl tu, fel pysgota a’r newid yn yr hinsawdd. Mae pysgota’n gallu effeithio ar ein hamgylchedd morol hefyd, er enghraifft trwy sgil-ddalfa ddamweiniol neu effaith offer pysgota ar wely’r môr. Felly, mae’n bwysig ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol pysgota fel rhan o reolaeth gyffredinol ein pysgodfeydd a’r amgylchedd morol.

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru wedi amlinellu eu cynlluniau ar gyfer diogelu ein hamgylchedd ar gyfer y dyfodol. Mae Cynllun Gwella Amgylcheddol (EIP) 2025 Defra yn amlinellu sut byddwn yn gwella ein hamgylchedd yma yn y Deyrnas Unedig ac o amgylch y byd, ac mae’n gosod cynllun ar gyfer degawd o gyflawni gyda chamau gweithredu a arweinir gan dargedau tuag at adael ein hamgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd ynddo pan wnaethom ei etifeddu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy’n darparu fframwaith ailadroddol i sicrhau bod rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae’r angen i ddefnyddio dull newydd, mwy integredig o reoli adnoddau naturiol Cymru er mwyn cyflawni cynaliadwyedd hirdymor yn ganolog i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae’r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS), fel y’i diwygiwyd, yn amlinellu sut y bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd y Deyrnas Unedig (Defra a’r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon) yn paratoi a chyhoeddi 43 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) erbyn 2028. Bydd y cynlluniau’n dwyn ynghyd dystiolaeth ynglŷn â chyflwr y stociau ac yn amlygu mesurau a chamau gweithredu sy’n angenrheidiol i wella’r sylfaen dystiolaeth a rheoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y polisïau mewn FMP yn amlinellu’r camau gweithredu tymor byr a’r weledigaeth tymor hwy ar gyfer rheoli’r bysgodfa. Mae’n rhaid i’r cynlluniau hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach perthnasol, gan gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a’r angen am asesiad amgylcheddol strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Mae’r FMP hwn yn gynllun ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Mae FMPau yn ddogfennau sy’n esblygu, a ddatblygir ar y cyd â buddiannau pysgota masnachol a hamdden a rhanddeiliaid eraill. Maen nhw’n galluogi cyfleoedd ar gyfer twf trwy ddiwydiant pysgota a bwyd môr proffidiol a mwy cynaliadwy.

Gellir gweld y rhestr lawn o FMPau sy’n cael eu paratoi gan bob un o’r awdurdodau pysgodfeydd yn y JFS.

## FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Mae FMP arfaethedig gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn rhychwantu ardaloedd 7e, 7f, 7g, a 7h Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr (ICES) yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich safbwyntiau ar y canlynol:

- FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel, fel sy'n ofynnol gan Atodlen 1, Rhan 3 Deddf Pysgodfeydd 2020; a baratowyd gan Defra ar y cyd â llywodraeth Cymru

- Adroddiad Amgylcheddol FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel sy'n disgrifio effeithiau amgylcheddol tebygol yr FMP, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004. Fe'i lluniwyd gan Defra.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol de-minimis wedi cael ei ddatblygu hefyd, sy'n disgrifio effaith economaidd ddisgwyliedig y cynllun ar y sector pysgota a busnesau cysylltiedig. Byddem yn croesawu tystiolaeth economaidd ychwanegol i ddiweddaru ein hasesiad wrth i ni weithredu'r cynllun.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i:

- unigolion, grwpiau, neu fusnesau sy'n ymwneud â'r sectorau pysgota, bwyd môr, neu ddyframaethu, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu fusnesau o'r Deyrnas Unedig neu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig

- unigolion, grwpiau neu fusnesau eraill sy'n defnyddio'r môr, er enghraifft, diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy alltraeth a chyrff hwylio

- grwpiau diddordeb cenedlaethol a lleol fel sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a hamdden, a ffederasiynau diwydiant

## Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Ceir gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio'ch data personol yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad FMP sydd ar gael yn yr adran dogfennau cysylltiedig ar dudalen yr ymgynghoriad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag 'Egwyddorion Ymgynghori' Swyddfa'r Cabinet sydd ar gael yn: Egwyddorion ymgynghori: arweiniad - GOV.UK (www.gov.uk)

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynglŷn â'r broses ymgynghori, anfonwch nhw at consultation.coordinator@defra.gov.uk

# Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

## Pam rydym yn cyhoeddi FMPau?

Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y ddarpariaeth i baratoi a chyhoeddi FMPau. Bydd FMPau yn gwarchod ac adfer stociau, yn cefnogi diwydiant pysgota cynaliadwy ac yn diogelu'r amgylchedd. Mae'r JFS yn rhestru 43 o FMPau arfaethedig wedi'u teilwra i stociau a lleoliadau penodol, gyda'r nod o ddiwygio ac ailddiffinio sut mae pysgodfeydd domestig yn cael eu rheoli.

## Beth yw FMPau?

Mae FMPau yn gynlluniau gweithredu wedi'u seilio ar dystiolaeth a luniwyd i gyflawni pysgodfeydd cynaliadwy. Mae pob FMP yn amlinellu camau gweithredu tymor byr a gweledigaethau tymor hir, sydd â'r nod o adfer neu gynnal stociau pysgod ar lefelau cynaliadwy. Mae'r cynlluniau hyn yn berthnasol i bysgota masnachol a hamdden, gan fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol ehangach. Lle bo'n briodol, fe allai FMPau nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion ehangach a amlygwyd yn ystod y broses o'u datblygu, fel ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

## Sut mae FMPau yn gweithio

Mae pysgodfeydd yn gymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli, a reolir ar hyn o bryd trwy reoliadau, is-ddeddfau, amodau trwydded a mesurau gwirfoddol. Fe allai FMPau arwain at newidiadau i'r offerynnau cyfreithiol a'r cytundebau gwirfoddol hyn.

Mae gofyniad cyfreithiol ar Awdurdodau Pysgodfeydd Cenedlaethol (sef Defra, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn) i weithredu yn unol â'r polisïau a amlinellir yn y cynlluniau a byddant yn gweithio gydag Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCAau), Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas), Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar weithredu.

Mae FMPau yn amlygu ystod o gamau gweithredu tymor byr a thymor hwy. Bydd y cynlluniau'n addasol ac yn datblygu dros amser wrth i dystiolaeth ychwanegol gael ei chasglu, a mesurau gael eu gweithredu. Er y bydd pob FMP yn canolbwyntio ar stoc(iau) penodol, bydd hefyd yn bwysig sicrhau eu bod yn cydweithio ac yn cydnabod anghenion pysgotwyr, neu randdeiliaid y mae mwy nag un FMP yn effeithio arnynt.

Mae'n rhaid i bob FMP gael ei adolygu o fewn chwe blynedd o'i gyhoeddi, neu'n gynt os bydd angen. Gellir disodli neu ddiwygio FMP unrhyw bryd hefyd yn dilyn ymgynghoriad, sy'n golygu y gellir cadw'r cynllun yn gyfredol.

Bydd angen i gamau gweithredu FMP gael eu gweithredu'n ailadroddol ar hyd eu hoes i ddylanwadu ar sut mae pysgodfeydd yn cael eu rheoli. Felly, fe allai gymryd peth amser i fuddion ddod i'r amlwg o ran gwella cynaliadwyedd stociau a physgodfeydd.

## FMPau a Gwladwriaethau arfordirol eraill

Mae'r Deyrnas Unedig, gan gynnal ymreolaeth reoleiddiol dros ei physgodfeydd, wedi ymrwymo i weithio gyda Gwladwriaethau arfordirol eraill, gan ddatblygu ein perthnasoedd cryf ac adeiladol, i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd a rennir yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Er mwyn cyflawni amcanion y Ddeddf Pysgodfeydd, bydd y polisïau a'r camau gweithredu mewn FMPau presennol ac yn y dyfodol yn cael eu gweithredu, a'u hailadrodd pan fydd angen, i adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed trwy ymgynghoriadau blynyddol â'r Undeb Ewropeaidd a Gwladwriaethau arfordirol eraill, yn ogystal â thrafodaethau mewn fforymau amlochrog a dwyochrog.

Mae FMPau yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli gweithgarwch pysgota, gan sicrhau cynaliadwyedd stociau ac amgylchedd morol iach. Bydd y cynlluniau hyn yn llywio strategaethau aml-flwyddyn ar gyfer cadwraeth a rheolaeth stociau a rennir, gan gynnwys y rhai hynny a gynigir gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA).

Bydd mesurau rheoleiddiol i weithredu FMPau yn berthnasol i bob llong sy'n pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Bydd y Deyrnas Unedig yn hysbysu'r Undeb Ewropeaidd am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar longau'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd a thu hwnt i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar bysgodfeydd rhyngwladol trwy fforymau dwyochrog ac amlochrog.

## Y dull o ddatblygu'r FMPau

Rydym yn parhau i sicrhau bod FMPau, a ddatblygir mewn modd cydweithredol a thryloyw, yn berthnasol i'r bysgodfa neu'r pysgodfeydd dan sylw ac yn cefnogi dull mwy ymarferol a hyblyg o reoli pysgodfeydd wedi'i deilwra i rywogaethau, lleoliadau, a gweithgareddau pysgota.

Mae'r broses o ddatblygu'r FMPau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael ei theilwra yn ôl anghenion penodol pob cynllun a chan gydbwyso safbwyntiau amrywiol ar draws sectorau. Rydym wedi gweithio i gynnwys rhai sectorau yn y broses yn gynharach, gan sicrhau cydweithio go iawn.

Gan ymateb i ymgynghoriadau FMP cynharach, rydym yn gweithio i sicrhau mwy o gysondeb ar draws yr FMPau a'r holl gynlluniau yn y dyfodol. Mae defnyddio iaith gryno a

symlach lle y bo’n bosibl, llai o gwestiynau ymgynghori a sicrhau bod deunydd ategol ar gael pan fydd yr ymgynghoriad yn cael ei lansio yn ceisio helpu rhanddeiliaid i ddarparu ymatebion gwybodus.

Rydym yn dysgu gwersi gwerthfawr o weithredu ein cynlluniau cyhoeddedig ac yn cydnabod bod cynnwys rhanddeiliaid a chydweithio parhaus yn sail i gyflawni’r FMPau yn llwyddiannus. Bydd y dull hwn yn parhau wrth i bartneriaid cyflawni weithio’n agos gyda grwpiau’r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod camau rheoli’n cael eu cyd-ddylunio.

# Crynodeb o FMP rhywogaethau gwely’r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Mae’r FMP yn gynllun a reolir ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru. Fe’i datblygwyd ar y cyd â’r MMO a gweithgor o randdeiliaid pysgodfeydd, gan gynnwys ymchwilwyr gwyddonol, Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau (IFCAau), a physgotwyr masnachol a hamdden.

Mae’r FMP hwn yn ymdrin â 40 o rywogaethau a 2 grŵp genws morgwn y dyfnfor, ac mae’n berthnasol yn unig i weithgarwch pysgota yn ardaloedd 7e, 7f, 7g, a 7h Cyngor Rhyngwladol Archwilio’r Môr (ICES) yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

Blaenoriaethwyd y rhywogaethau yn yr FMP hwn oherwydd bod perygl y gellid gorfanteisio arnynt yn sylweddol heb gamau rheoli, ac oherwydd eu bod yn bwysig yn gymdeithasol a/neu’n economaidd, a/neu oherwydd eu bod o arwyddocâd ecolegol. Mae’r stociau hyn nid yn unig yn ganolog i bysgodfeydd masnachol a hamdden ond hefyd yn cyflawni rolau ecolegol allweddol fel ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth, gan gysylltu nifer o lefelau troffig. Er bod rhai stociau’n dangos arwyddion adfer, nid felly eraill, yn enwedig penfreision, y mae eu niferoedd yn parhau i fod yn eithriadol o isel, ac nid oes digon o ddata ar gael o hyd i gynnal asesiadau cadarn ar gyfer llawer o rywogaethau eraill yr FMP.

Y weledigaeth ar gyfer yr FMP hwn yw y bydd pysgodfeydd gwely’r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn parhau i gael eu rheoli’n gynliadwy, gan sicrhau bod stociau’n cael eu hadfer a’u cynnal yn uwch na lefelau biomas sy’n gallu cynhyrchu cynnyrch mwyaf cynaliadwy (MSY).

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddylunio ar y cyd â rhanddeiliaid pysgodfeydd, sefydlodd yr MMO weithgor i lywio datblygiad y cynllun. Anogwyd yr aelodau i geisio cyfleoedd i ymgysylltu â’r diwydiant pysgota ehangach (masnachol a hamdden) a rhanddeiliaid allweddol eraill, lle y bo’n briodol, i fwydo eu safbwyntiau i ddatblygiad yr FMP. Cynhaliodd y grŵp saith cyfarfod drwy gydol 2024 a 2025.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Ymgysylltu cysylltiedig.

**C1. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y broses ymgysylltu ar gyfer datblygu'r FMP drafft? Gweler adroddiad ymgysylltu'r FMP am fanylion.**

## Tystiolaeth

Yn fasnachol, cyfanswm glaniadau rhywogaethau'r FMP gan y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd gyda'i gilydd (ar hyd cyfnod cyfeirio o 2019 i 2023) o fewn ardal yr FMP oedd 130,769 t, a oedd yn werth £464.85 M. Yn ôl pwysau glaniadau, roedd glaniadau'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd wedi'u rhannu'n 44,750 t (34.2%) ac 85,999 t (65.8%), yn ôl eu trefn.

Cychod 18 i 40 m o hyd sy'n bennaf gyfrifol am lanio rhywogaethau'r FMP yn ardal yr FMP, gan gynrychioli 85.6% (111,920 t) o gyfanswm pwysau glaniadau ac 86.1% (£400.066 m) o gyfanswm gwerth glaniadau rhwng 2019 a 2023.

Mae gwahanol lefelau data ar gael ar gyfer stociau'r FMP, fel y categoreiddiwyd gan ICES. Mae ICES yn categoreiddio stociau pysgod yn chwe grŵp (Categorïau 1 i 6) yn seiliedig ar swm ac ansawdd y data sydd ar gael, sy'n pennu'r math o asesiad a chyngor gwyddonol a'i ddibynadwyedd. Gellir amcangyfrif cyfeirbwyntiau cynnyrch mwyaf cynaliadwy (MSY) ar gyfer stociau sydd wedi'u dosbarthu'n Gategorïau data 1 neu 2 ICES; gellir sefydlu MSY dirprwyol ar gyfer stociau Categori data 3 ICES. Aseswyd ugain o'r stociau sydd o fewn cwmpas yr FMP hyd at MSY gan ICES. (O'r rhain, ystyrir bod deuddeg stoc yn gategori data 1, ystyrir bod dwy stoc yn gategori data 2, ac ystyrir bod chwe stoc yn gategori data 3, gydag MSY dirprwyol ar waith).

O ran 17 o stociau, nid oes digon o dystiolaeth ar gael ar gyfer asesiad MSY. (O'r rhain, ystyrir bod un ar ddeg o'r stociau'n Gategori data 5, ac ystyrir bod chwe stoc yn Gategori data 6). Mae angen casglu mwy o dystiolaeth i wella'r data ar gyfer y rhywogaethau hyn er mwyn eu symud ymlaen tuag at asesiad MSY neu MSY dirprwyol.

Nid yw 14 o rywogaethau a 2 grŵp genws yn destun unrhyw asesiad stoc yn ardal yr FMP, yn bennaf y morgathod prinnach a llawer o'r morgwn dyfnforol.

Mae'r FMP yn ymdrin â stociau a allai fod mewn perygl o orfanteisio arnynt heb gamau rheoli, sy'n bwysig yn gymdeithasol a/neu'n economaidd, a/neu sydd o arwyddocâd ecolegol. Mae'r stociau hyn nid yn unig yn ganolog i bysgodfeydd masnachol a hamdden ond hefyd yn cyflawni rolau ecolegol allweddol fel ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth, gan gysylltu nifer o lefelau troffig. Er bod rhai stociau'n dangos arwyddion adfer, nid felly eraill, yn enwedig penfreision, y mae eu niferoedd yn parhau i fod yn eithriadol o isel, ac nid oes digon o ddata ar gael o hyd i gynnal asesiadau cadarn ar gyfer llawer o rywogaethau eraill yr FMP.

Mae'r rhywogaethau sydd o fewn cwmpas yr FMP yn cael eu dal ar draws ystod o is-setiau pysgodfeydd tymhorol a phenodol i offer, ac maen nhw'n cael eu dal yn fwy cyffredinol mewn pysgodfeydd cymysg gyda stociau cwota eraill sy'n rhan bwysig o enillion pysgotwyr ar draws gwahanol bysgodfeydd targed (h.y., pan fyddant yn targedu

stociau cwota). Mae offer benthig symudol a rhwydi drifft a sefydlog yn gyfrifol am y rhan fwyaf o laniadau rhywogaethau'r FMP yn ardal yr FMP.

Amlygwyd ystyriaethau amgylcheddol mewn perthynas â'r pysgodfeydd ar gyfer rhywogaethau'r FMP gan ddefnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan Natural England, y JNCC a CNC. Aseswyd y rhain wrth ddatblygu'r cynllun ac maen nhw'n sail i'r nodau polisi arfaethedig. Fe allai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar y pysgodfeydd hyn hefyd; ystyriwyd hynny a chyflwynwyd camau gweithredu priodol.

**C2. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr FMP drafft?**

## Nodau polisi ar gyfer rheoli pysgodfeydd gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Er mwyn sicrhau bod y stociau'n cael eu rheoli'n effeithiol, mae'r FMP yn amlygu deg nod polisi sy'n canolbwyntio ar wella cynaliadwyedd, cryfhau rheolaeth ranbarthol integredig, cefnogi cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd a datblygu tystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau cyfannol a chydweithredol. Datblygwyd y nodau hyn i fynd i'r afael â phryderon a godwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal ag ymateb i faterion a chyfleoedd a amlygwyd gan y dystiolaeth bresennol a chyd-fynd â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r nodau hyn yn amodol ar ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu blaenoriaethu'n briodol i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy.

Mae'r nodau polisi fel a ganlyn:

1. Datblygu cynlluniau adfer aml-flwyddyn ar gyfer stociau penfreision yr FMP.
2. Cywain stociau lledod yn gynaliadwy, gan gynnal biomas yn uwch na'r lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY.
3. Cywain stociau cimychiaid Norwy yn gynaliadwy a rheoli sgil-ddalfa cimychiaid Norwy.
4. Cywain stociau cythraul y môr (lophiiformes) yn gynaliadwy, gan gynnal biomas yn uwch na'r lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY.
5. Rheoli pysgodfeydd elasmobranciad yn gynaliadwy a rheoli sgil-ddalfeydd.
6. Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer merfog coch.
7. Archwilio'r potensial i ddiwygio dulliau rheoli ac ymagweddau presennol er mwyn cydgysylltu dulliau rheoli stociau FMP a'u cydweddu'n well.
8. Datblygu tuag at reoli pysgodfeydd yn seiliedig ar ecosystem.
9. Cynorthwyo'r sector i addasu a bod yn fwy gwydn.
10. Lleihau cyfraniad pysgota at y newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Gweler yr FMP llawn ar gyfer y testun llawn a'r sail resymegol i'r nodau polisi.

**C3. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y nodau polisi yn yr FMP drafft?**

## Rheolaeth arfaethedig ar bysgodfeydd gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Mae'r camau gweithredu isod wedi cael eu crynhoi. Gweler yr FMP llawn ar gyfer y testun llawn a manylion pa gamau gweithredu sy'n berthnasol i bob nod.

I grynhoi, mae'r camau gweithredu tymor byr yn canolbwyntio ar y canlynol:

- o ran stociau a reolir gan Ddalfeydd Mwyaf a Ganiateir (TACau): parhau i bennu cyfleoedd pysgota wedi'u llywio gan y cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael a pharhau i weithio gyda gwladwriaethau arfordirol partner trwy drafodaethau rhyngwladol, gyda'r nod o adfer neu gynyddu cywain y stociau hyn yn gynaliadwy
- bydd adfer pysgota'r stociau canlynol i lefelau cynaliadwy yn dangos effeithiolrwydd y cynllun hwn: morlas, penfras, hadog, gwyniad môr (whg.27.7b-ce-k), lleden goch (ple.7e a ple.7fg) a chimychiaid Norwy (nep.fu.22) trwy gynlluniau adfer aml-flwyddyn
- cynnal biomas stoc silio ar gyfer stociau sy'n cael eu pysgota'n gynaliadwy: cythraul y môr, honos glas, morgath lygadog, lleden Fair, cimychiaid Norwy (nep.fu.2021), lleden goch (ple.27.7h-k) a morgath lygaid-bach
- lleihau marwolaethau pysgota a chynnal biomas stoc silio: lleden chwithig, morgath donnog, morgath ddreiniog a morgath fannog
- datblygu tuag at asesiadau MSY ar gyfer y stociau canlynol: lleden chwithig, morgath felen, morgath ddreiniog a morgath lygaid-bach
- gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stociau canlynol: grenadwr trwyngrwn, chwitlyn glas (pok.27.7-10), lleden Fair bedwar smotyn, cimychiaid Norwy (nep.27.7outFU) yn Is-ardal 7 ICES, y tu allan i'r unedau swyddogaethol, morgath gron, morgath gribog, morgath las, morgath wen, cymhleth morgath las, morgi asgell barcud, morgi cegeidiol deilgen, morgi Portiwgal, a merfog coch. Hefyd, gwella'r dystiolaeth ar gyfer y stociau canlynol: morgath felen, morgath ddreiniog, morgath lygaid-bach, morgath donnog, morgath drwynfain, hwylforgath, morgath bigog, morgath ddu, morgath bigog y Canoldir, morgath gron America, morgath drydan fraith
- o ran yr holl stociau: casglu a defnyddio'r dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael i gefnogi penderfyniadau rheoli a phennu cyfleoedd pysgota. Mae hyn yn cynnwys:
  - amlinellu anghenion ymchwil ar gyfer cynhyrchu neu wella asesiadau stoc lle y bo angen, gan gynnwys yn ymwneud â dulliau seiliedig ar ecosystem
  - cefnogi a sicrhau bod y pysgodfeydd hyn yn cael eu hystyried o fewn rhaglenni a mentrau monitro a lliniaru sgil-ddalfa presennol
  - ystyried asesiadau o'r gwahanol ddulliau monitro a lliniaru sgil-ddalfa, sut maen nhw'n berthnasol i offer sy'n gyffredin o fewn y pysgodfeydd hyn a'u priodoldeb i atal neu liniaru sgil-ddal rhywogaethau mudol sensitif
  - parhau i weithio gyda fflyd y glannau sy'n targedu'r stociau hyn er mwyn cyfleu a chael dealltwriaeth well o'r heriau maen nhw'n eu hwynebu mewn perthynas â chyfleoedd pysgota am stociau FMP

I grynhoi, mae'r camau gweithredu tymor canolig i dymor hir yn canolbwyntio ar y canlynol:

- ystyried adolygiad o effeithiolrwydd cyffredinol dulliau rheoli stoc presennol wrth gyfrannu at nodau ehangach yr FMP
- o ran yr holl stociau, cefnogi gwaith casglu tystiolaeth presennol ac yn y dyfodol er mwyn:
    - gwella asesiadau stoc
    - cefnogi'r broses o amlygu a gweithredu'r dulliau mwyaf priodol o reoli yn seiliedig ar ecosystem
    - deall effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant i addasu i'r newid yn yr hinsawdd
    - deall buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y pysgodfeydd sy'n gysylltiedig â'r FMP, gan ystyried yr ystod eang o fuddiolwyr
- cefnogi gwaith a chydweithio â rhanddeiliaid i:
    - helpu i warchod yr hunaniaeth ddiwylliannol sy'n gysylltiedig ag arferion pysgota traddodiadol, ar raddfa fach
    - archwilio ffyrdd o sicrhau mynediad teg at gyfleoedd pysgota ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
    - archwilio ble y gellid cynyddu capasiti i gefnogi twf diogel a chynaliadwy yn y pysgodfeydd hyn, lle y bo'n briodol
- integreiddio ac ychwanegu at y model ecosystem sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ar gyfer y Môr Celtaidd
- ystyried asesiad cymdeithasol ac economaidd o'r pysgodfeydd
- parhau i werthuso effaith y newid yn yr hinsawdd ar stociau FMP, gan ystyried mesurau lliniaru ac addasu i leihau effeithiau ar y pysgodfeydd. Amlygu cyfleoedd i ddatblygu fflyd fwy effeithlon (gan gynnwys gwelliannau i ddyluniad motorau, offer pysgota a datblygiadau technolegol)

**C4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y mesurau a'r camau gweithredu yn yr FMP drafft?**

## Gweithredu

Pan fydd y cynllun wedi'i gyhoeddi'n ffurfiol, caiff ei roi ar waith. Bydd hyn yn cael ei wneud fesul cam, a bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r sector pysgota masnachol a hamdden a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cynlluniau gweithredu. Mae cyhoeddi'r FMP yn dynodi dechrau cylch aml-flwyddyn, a byddwn yn sicrhau bod y cynlluniau'n taro cydbwysedd rhwng cynyddu momentwm ar gyfer camau gweithredu tymor byr a gosod y cyfeiriad ar gyfer y tymor hwy. Gellir ailadrodd hyn ymhellach wrth i'r sylfaen dystiolaeth wella. Mae'n rhaid i'r cynlluniau gael eu hadolygu bob chwe blynedd, o leiaf.

Mae grwpiau traws-reoleiddiwr, grwpiau'r llywodraeth a grwpiau diwydiant wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r FMPau drafft. Mae ymwneud gan randdeiliaid a chydweithio parhaus yn sail i gyflawni'r FMPau yn llwyddiannus a bydd yn parhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

## Casgliad

I grynhoi, mae FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn disgrifio mesurau rheoli presennol a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws 40 o rywogaethau a 2 grŵp genws morgwn y dyfnfor, a'u stociau cysylltiedig, yn ardaloedd 7e, 7f, 7g, a 7h ICES yn nyfroedd Cymru a Lloegr er mwyn pennu lefel elwa gynaliadwy. Mae'n amlinellu polisïau ac yn cynnig camau gweithredu i reoli'r bysgodfa'n gynaliadwy.

**C5. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar yr FMP drafft?**

# Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae gofyniad cyfreithiol ar Defra i ystyried effaith amgylcheddol polisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn amlinellu egwyddorion amgylcheddol i arwain y broses o lunio polisïau. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau SEA 2004) yn mynnu bod unrhyw gynlluniau, rhaglenni, a strategaethau cyhoeddus cymwys yn cael Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) yn ystod y broses o'u paratoi a chyn eu cyhoeddi os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle morol Ewropeaidd (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol). Mae FMPau yn gynlluniau neu'n rhaglenni at ddibenion Rheoliadau SEA 2004.

## Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut cafodd ei ddatblygu?

Mae'r SEA yn ystyried yr effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n debygol o ddeillio o roi'r polisïau a'r camau gweithredu a amlinellir yn FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ar waith. Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn amlinellu canfyddiadau'r broses hon. Mae'r adroddiad yn disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd (y llinell sylfaen) ac effeithiau sylweddol tebygol y cynigion yn yr FMP drafft ar y llinell sylfaen. Mae'r asesiad yn amlygu meysydd lle y gallai'r FMP gael effaith gadarnhaol ar y llinell sylfaen ac felly ein hamgylchedd morol. O ran meysydd lle y gallai'r FMP gael effeithiau negyddol ar y llinell sylfaen, mae'r adroddiad yn awgrymu camau gweithredu i liniaru a/neu fonitro'r effeithiau hyn. Datblygodd Defra a Llywodraeth Cymru yr Adroddiad Amgylcheddol ar gyfer yr FMP drafft. Llywiwyd cwmpas a lefel y manylion trwy ymgynghori'n gynnar â'n Cyrff Ymgynghori Statudol: Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd, a Historic England, CNC a Cadw ynghyd â'r JNCC, sy'n cynghori llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig ar gadwraeth natur ledled y Deyrnas Unedig. Fe wnaethom ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddedig am gyflwr yr amgylchedd ac effaith bosibl pysgota ar nodweddion amgylcheddol.

## Crynodeb o Adroddiad Amgylcheddol FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel

Cynhyrchwyd Adroddiad Amgylcheddol gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004. Cynhwyswyd y materion canlynol (o baragraff 6 Atodlen 2 Rheoliadau SEA 2004) yn yr asesiad: Bioamrywiaeth, Ffawna, Fflora, Daeareg, a gwaddodion (pridd), Dŵr, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol, Tirwedd, a morlun. Mae'r adroddiad hwn yn asesu effeithiau sylweddol tebygol FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ar y materion hyn.

Cynhaliwyd yr asesiad yn erbyn llinell sylfaen a ddefnyddiodd, yn bennaf, dystiolaeth bresennol ynglŷn â chyflwr yr amgylchedd morol a amlinellir yn Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig Rhan 1 wedi'i diweddaru, a gyhoeddwyd yn 2019. Defnyddiwyd ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth i gadarnhau statws presennol yr amgylchedd mewn perthynas â materion, fel ffactorau hinsoddol, nad ydynt wedi'u cynnwys yn Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig. Ystyriwyd effaith hanesyddol gweithgarwch pysgota ar yr amgylchedd morol yn rhan o'r llinell sylfaen. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ffurfio barn addas am effeithiau amgylcheddol FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel.

Mae effeithiau amgylcheddol presennol pysgota gwely'r môr ar y materion a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn, o ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, disgrifyddion Strategaeth Forol y Deyrnas Unedig a'r amgylchedd ehangach, wedi cael eu cydnabod a'u hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae'r effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar yr amgylchedd sy'n deillio o bolisïau a mesurau arfaethedig FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel yn unigol ac ar y cyd wedi cael eu hasesu hefyd.

Daeth ein SEA i'r casgliad fod y dystiolaeth bresennol yn dangos bod y bysgodfa gwely'r môr yn effeithio ar yr amgylchedd morol trwy darfu ar wely'r môr a sgil-ddal rhywogaethau na thargedwyd, yn bennaf. Mae hefyd yn lleihau ysglyfaeth ar gyfer rhywogaethau dynodedig ac yn effeithio ar weoedd bwyd morol, yn bennaf yn sgil gostyngiadau mewn penfreision ifanc.

Mae angen gwneud mwy o waith i leihau effaith y pysgodfeydd gwely'r môr ar gynefinoedd y tu hwnt i Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod targedau statws amgylcheddol da yn cael eu cyflawni ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr. Yn ogystal, amlygwyd cyfraniad pysgodfeydd gwely'r môr at faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a'u rhyngweithiadau â threftadaeth ddiwylliannol, trwy ddifrod strwythurol er enghraifft, fel effeithiau posibl hefyd.

Mae FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel wedi ystyried yr effeithiau presennol hyn ac mae'n amlinellu cynigion i'w monitro a, lle bo angen, yn cyflwyno mesurau lliniaru i fynd i'r afael â nhw. Daeth yr asesiad o effeithiau negyddol tebygol i'r casgliad fod risg isel o effeithiau niweidiol sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil rhoi polisïau a chamau gweithredu unigol ar waith. Bydd y polisïau a'r camau gweithredu, lle y bo'n

briodol, yn cael eu datblygu i osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl a amlygwyd gan y broses asesu. Bydd yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau a chamau gweithredu FMP gwely'r môr drafft y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel ar waith yn cael eu monitro hefyd i amlygu effeithiau niweidiol annisgwyl yn gynnar, fel y gellir cymryd camau unioni priodol.

**C6. A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol yr FMP drafft, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Amgylcheddol?**

## Asesiadau Effaith Rheoleiddiol

Mae'r FMP hwn yn gynllun ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru. Mae rheoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli, a bydd y broses o weithredu mesurau penodol yn cael ei datblygu gan awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol unigol, fel y bo'n briodol. Bydd unrhyw asesiad o effeithiau ar gyfer mesurau penodol yn cael ei gwblhau gan yr awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol perthnasol hefyd, yn unol â phrosesau asesu unigol pob awdurdod.

At ddibenion yr ymgynghoriad ar FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel, rydym wedi llunio asesiad de-minimis (DMA) sy'n amlinellu ein sail resymegol a'n dull o asesu effaith bosibl y cynllun ar fusnes. Mae'r DMA hwn yn ddogfen ategol.

Er bod yr FMP yn amlygu mesurau y gellid eu cyflwyno ar ôl ymgynghori, bydd y mesurau arfaethedig hyn yn cael eu datblygu ymhellach ac nid ydynt yn cynnwys digon o fanylion ar hyn o bryd i allu cynnal dadansoddiad economaidd. Fe allai'r mesurau arfaethedig hyn fod yn rheoleiddiol neu'n ddadreoleiddiol, ac yn fanteisiol neu'n anfanteisiol i fusnes, felly nid oes modd amcangyfrif effeithiau.

Pan fydd mesurau unigol yn cael eu gweithredu, bydd effeithiau'r dull statudol neu anstatudol a ddefnyddir i'w rhoi ar waith yn cael eu hasesu yn y modd priodol.

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal trwy borth ar-lein Citizen Space yn bennaf. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn ymatebion trwy e-bost ac ar ffurf copi caled gan y rhai nad ydynt yn gallu cael at yr arolwg ar-lein. Mae ffurflen ymateb i'w defnyddio ar gyfer ymatebion e-bost a chopi caled wedi'i chynnwys fel dogfen gysylltiedig ar wefan Citizen Space.

Mae'r cwestiynau ymgynghori wedi'u dangos mewn teip du trwm yn y ddogfen hon. Maen nhw hefyd yn ymddangos yn y ffurflen ymateb a'r porth Citizen Space. Rhoddir lle ar gyfer sylwadau cyffredinol hefyd.

Mae fersiynau print bras a braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Mae gofyniad statudol ar Defra i geisio safbwyntiau'r cyhoedd ar yr FMP arfaethedig a'i Adroddiad Amgylcheddol cysylltiedig.

Mae tair rhan i'r arolwg ymgynghori:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)

2. Cwestiynau am FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel, yr Adroddiad Amgylcheddol a'r adrodiad ymgysylltu â rhanddeiliaid.

3. Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein (gofynnol)

Bydd angen i chi ymateb i'r cwestiynau rydych eisiau eu hateb yn unig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl ymatebwyr gwblhau'r adrannau 'Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein' a 'Manylion personol a chyfrinachedd' gofynnol cyn y gallwch gyflwyno'ch ymateb i'r arolwg ar-lein.

## Hyd yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 10 Chwefror 2026 ac yn gorffen ar 5 Mai 2026. Mae'n rhaid derbyn ymatebion erbyn 23:59 ar 5 Mai 2026.

## Ymatebion

Gellir cyflwyno ymatebion:

- Trwy borth ar-lein Citizen Space.
- Trwy e-bost at: FMPconsultations@defra.gov.uk
- Trwy'r post at:

  Ymgynghoriad – FMP gwely'r môr y Môr Celtaidd a Gorllewin y Sianel
  Y Tîm FMP – Morol a Physgodfeydd
  Adeilad Seacole, 2 Marsham St
  Llundain
  SW1P 4DF

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn gosod y crynodeb ar wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## Ymholiadau

Os ydych eisiau cyflwyno ymateb ymgynghori, cysylltwch â'r canlynol:
FMPconsultations@defra.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r canlynol: FMPs@defra.gov.uk

Mae'r JFS ar gael yma: Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS)

Mae'r Ddeddf ar gael yma: Deddf Pysgodfeydd 2020 (legislation.gov.uk)